



Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'ch cynlluniau gynnwys enghreifftiau a manylion cronfeydd cyfun a fydd yn cael eu sefydlu yn sgil eich asesiad poblogaeth. O dan reoliadau partneriaeth 2015 (fel y'u diwygiwyd gan *Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017*) os yw unrhyw un o'r cyrff partneriaeth yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth, rhaid iddynt ystyried a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun.

Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn yn eich cynorthwyo i ddeall beth yw ystyr cronfa gyfun a phryd y dylid cynnwys cronfa o'r fath yn eich cynllun.

Rydym yn cydnabod bod cronfeydd cyfun neu gyllidebau cyfun wedi'u rhoi ar waith yn y rhan fwyaf os nad ym mhob un o ardaloedd Cymru drwy gytundebau Adran 33. **Yn y dyfodol, dylai pob cronfa gyfun gael ei sefydlu o dan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â phwerau cyfatebol i'r rhai o dan adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.**

Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi canllawiau pellach ar y pwnc hwn:

1. Cytundeb drafft ar gyfer cyd-gomisiynu o gronfa gyfun ar gyfer gwasanaethau llety cartref gofal a wnaed o dan Adran 33 o *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*, a baratowyd mewn ymateb i'r gofyniad yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.
2. 'Establishing a Pooled Fund' – dogfen sy'n cynnwys nodiadau esboniadol yn ymwneud â'r uchod.
3. Set o Gwestiynau Cyffredin ar gytundebau a.33 a chronfeydd cyfun.

O dan y Ddeddf, *Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015* (fel y'u diwygiwyd) a'r Canllawiau Rhan 9, mae gofyn i chi sefydlu cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas â chartrefi gofal a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae gofyn i chi hefyd hyrwyddo cronfeydd cyfun ac ystyried a yw'n briodol sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n cael ei wneud ar y cyd mewn ymateb i'ch asesiad o'r boblogaeth. Rydym yn cydnabod bod sefydlu cronfeydd cyfun yn gallu bod yn broses gymhleth a bod opsiynau gwahanol ar gyfer sicrhau dull integredig mewn perthynas â gofal a chymorth. Fodd bynnag, rhaid i chi ystyried sefydlu cronfa gyfun lle bo'n briodol gwneud hynny. Chi sydd i benderfynu pryd fydd hynny'n digwydd, ond dylech ystyried nifer o faterion wrth wneud y penderfyniad hwnnw (gweler tudalen nesaf).

- ◆ Rhaid i'ch cynlluniau ganolbwyntio ar ymatebion integredig i'ch asesiad o'r boblogaeth.
- ◆ Mae cronfeydd cyfun yn ffordd gydnabyddedig o gyflawni'r ymateb integredig hwnnw.
- ◆ Gellir ystyried cronfeydd cyfun sydd wedi'u creu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol fel y ffordd lleiaf amwys o ddangos ymrwymiad i waith partneriaeth.
- ◆ Mae Llywodraeth Cymru yn gadarn o blaid datblygu cronfeydd cyfun ac mae gofynion a disgwyliadau clir yn y Ddeddf, y Rheoliadau a'r canllawiau.

Gallwch hefyd ddewis mabwysiadu dulliau anffurfiol o gyfuno cronfeydd hefyd. Er enghraifft, gallwch ddewis cyfuno adnoddau - staff, offer neu adeiladau - heb bennu telerau ariannol llym ar gyfer hynny. Gallwch benderfynu alinio cyllidebau asiantaethau perthnasol i sicrhau eu bod yn targedu'r un canlyniad heb fynd mor bell â'u cyfuno mewn un gyllideb. Gallwch greu cyllideb gyfun rithwir ond peidio â'i chadarnhau drwy gytundeb a.33 neu gytundeb o dan y Rheoliadau Partneriaeth.

Pa ddull bynnag y byddwch yn ei fabwysiadu, mae'n bwysig eich bod yn ei egluro'n glir yn eich cynllun. Nid yn unig y bydd hyn yn osgoi dryswch ond bydd yn sicrhau atebolrwydd clir hefyd. Pan fyddwch yn creu cronfa gyfun, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn ystyried yr holl ystyriaethau cyfreithiol ac ariannol perthnasol angenrheidiol. Rhaid i chi sicrhau hefyd fod yna lwybr archwilio trwyadl mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a llywodraethu tryloyw.

Cwestiynau myfyriol

- ◆ *A ydw i wedi ystyried sefydlu neu ddefnyddio cronfa gyfun sy'n bodoli'n barod i gyflawni fy mlaenoriaethau?*
- ◆ *Os nad ydw i'n sefydlu cyllideb neu gronfa gyfunol, a ydw i wedi egluro'r rhesymau pam nad yw hynny'n ymarferol yn glir?*
- ◆ *A ydw i wedi archwilio ac egluro'r opsiynau eraill ar gyfer cyflawni blaenoriaethau integredig?*

Adnoddau defnyddiol

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/cynllunio-a-hyrwyddo>

